**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

**14 Mai 2026**

**Cyfarfod Aml-leoliad**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Elin Walker Jones (Cadeirydd)
Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd)

Craig ab Iago, Menna Baines, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Anwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Geraint Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:**

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr:- Anwen Davies, Alan Jones Evans, Dawn Lynne Jones, Dyfrig Siencyn, Gareth Coj Parry, Glyn Daniels a Gwion Emyr.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

## PWNC

Eitem 1:CADEIRYDD

## PENDERFYNIAD

**Penodi'r Cynghorydd Elin Walker Jones yn Gadeirydd am 2026/27.**

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

| | |
|---|---|
| O Blaid y Cyng. Elin Walker Jones | 36 |
| O Blaid y Cyng. Beth Lawton | 21 |

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

Eitem 2:IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNIAD**

**Penodi'r Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn Is-gadeirydd am 2026/27.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O Blaid y Cyng. Delyth Lloyd Griffiths | 38 |
| O Blaid y Cyng. Elfed P Roberts | 21 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

Eitem 9:CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28 - ADOLYGIAD 2026/27

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2026/27.

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 52 |
| Atal | 3 |
| Yn Erbyn | 1 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

Eitem 10:MABWYSIADU STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD NEWYDD I WYNEDD

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd 'Gwynedd 2035: Economi Sy'n Gweithio i Bawb' yn strategaeth datblygu economaidd i Wynedd.

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 51 |
| Atal | 3 |
| Yn Erbyn | 1 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

Eitem 11:ARDOLL YMWELWYR

**PENDERFYNIAD**

1. **I gyhoeddi Adroddiad Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd;**
2. **I gytuno i gynnal ymgynghoriad ar y Cynnig i gyflwyno Ardoll yn unol â'r rhestr ymgynghoron ym mharagraff 5.4 a 5.5 o'r adroddiad yma;**
3. **I hysbysu Awdurdod Cyllid Cymru, yn unol â'r statud, o'r bwriad i ymgynghori ar gyflwyno'r Ardoll.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 43 |
| Atal | 1 |
| Yn Erbyn | 3 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorwyr canlynol: Anne Lloyd Jones, Beth Lawton, Annwen Hughes, Dafydd Davies, Wendy Cleaver, Elwyn Edwards, Elwyn Jones, Linda Morgan, Elfed Williams a John Pughe Roberts. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael ar gyfer yr eitem.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

Eitem 12:ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i:

- fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel y nodwyd yn Atodiad A, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a'r uwch gyflogau a nodwyd yn yr atodiad.
- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol
- mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:
    - Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - Grŵp Plaid Cymru
    - Pwyllgor Craffu Cymunedau - Grŵp Annibynnol
    - Pwyllgor Craffu Gofal - Grŵp Annibynnol

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 45 |
| Atal | 2 |
| Yn Erbyn | 1 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

Eitem 13:PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2026/27

**PENDERFYNIAD**

**Penodi'r Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am 2026/27.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 45 |
| Atal | 0 |
| Yn Erbyn | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O’R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

Eitem 14:PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU - ARGYMHELLION PANEL CYFWELD

**PENDERFYNIAD**

**Bod y Cyngor yn penodi Carys Edwards a Neil Hawkins yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 48 |
| Yn Erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | |
|---|---|

**PWNC**

Eitem :RHYBUDDION O GYNNIG

**PENDERFYNIAD**

Dwi eisiau mynegi pryder dwfn ac angerddol ynghylch polisi presennol yr Arolwg Ordnans (AO) sy'n arwain at ddileu, tanseilio ac anwybyddu enwau lleoedd Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'n tirwedd ers canrifoedd.

Ar hyn o bryd, mae mapiau Arolwg Ordnans yn:

- Disodli enwau Cymraeg hanesyddol â ffurfiau Saesneg nad oes ganddynt sail na thraddodiad, e.e. *The Mushroom Garden* am Goed Cerrig y Frân, *Heather Terrace Path* am Lwybr Gwregys.
- Rhoi enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg, gan greu'r argraff bod yr enwau Cymraeg yn ddewisol neu'n eilradd, e.e. *Cwm Cneifion / Nameless Cwm*, *Bala Lake / Llyn Tegid*. 'Snowdon/Yr Wyddfa (er gwaethaf y ffaith nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio'r enw *Snowdon* bellach.)'

Mae'r Cyngor hwn yn beirniadu'r arferion hyn, gan eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at golli enwau Cymraeg, ac felly'n tanseilio ein hiaith, ein hanes a'n hunaniaeth genedlaethol. Pan fo'r Arolwg Ordnans yn mabwysiadu enw Saesneg, mae'n ymddangos ar wefannau, arwyddion, cyhoeddiadau, a'r cyfryngau ac o ganlyniad, mae'r enw Cymraeg yn cael ei wthio i'r cysgod.

Mae hyn yn digwydd hyd yn oed ymhlith siaradwyr Cymraeg ifanc, sydd yn aml yn cael eu harwain i gredu mai'r enw Saesneg yw'r "safonol". Dyma sut mae iaith yn cael ei gwanhau, nid mewn un ergyd, ond mewn mil o gamau bach.

Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan o'n DNA diwylliannol. Maent yn adrodd hanes y tir, y bobl, y chwedlau, y gwaith, y bywyd. Nid oes gan neb hawl i'w dileu na'u disodli.

Felly, dwi eisiau rhoi cynnig i'r cyngor hwn heddiw ein bod ni yn :

1. Ysgrifennu at yr Arolwg Ordnans i alw arnynt i roi diwedd ar y polisi niweidiol presennol, ac i fabwysiadu egwyddor glir a syml a defnyddio enwau lleoedd tirweddol Cymraeg yn unig ar fapiau yng Nghymru.
2. Galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd yn ffurfiol ac i sicrhau bod yr Arolwg Ordnans yn parchu ac yn diogelu enwau Cymraeg hanesyddol.
3. Galw ar weddill Awdurdodau Cymru i ddilyn y cynnig hwn.

Nid yw hyn yn fater o fapiau yn unig. Mae'n fater o hunaniaeth, parch a chyfiawnder diwylliannol.

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 45 |
| Yn Erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

**Eitem 15 (a): RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD EINIR WILLIAMS**

**PENDERFYNWYD:**

Dwi eisiau mynegi pryder dwfn ac angerddol ynghylch polisi presennol yr Arolwg Ordnans (AO) sy'n arwain at ddileu, tanseilio ac anwybyddu enwau lleoedd Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'n tirwedd ers canrifoedd.
Ar hyn o bryd, mae mapiau Arolwg Ordnans yn:

- Disodli enwau Cymraeg hanesyddol â ffurfiau Saesneg nad oes ganddynt sail na thraddodiad, e.e. *The Mushroom Garden* am Goed Cerrig y Frân, *Heather Terrace Path* am Lwybr Gwregys.
- Rhoi enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg, gan greu'r argraff bod yr enwau Cymraeg yn ddewisol neu'n eilradd, e.e. *Cwm Cneifion / Nameless Cwm*, *Bala Lake / Llyn Tegid*. 'Snowdon/Yr Wyddfa (er gwaethaf y ffaith nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio'r enw *Snowdon* bellach.)'

Mae'r Cyngor hwn yn beirniadu'r arferion hyn, gan eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at golli enwau Cymraeg, ac felly'n tanseilio ein hiaith, ein hanes a'n hunaniaeth genedlaethol. Pan fo'r Arolwg Ordnans yn mabwysiadu enw Saesneg, mae'n ymddangos ar wefannau, arwyddion, cyhoeddiadau, a'r cyfryngau ac o ganlyniad, mae'r enw Cymraeg yn cael ei wthio i'r cysgod.

Mae hyn yn digwydd hyd yn oed ymhlith siaradwyr Cymraeg ifanc, sydd yn aml yn cael eu harwain i gredu mai'r enw Saesneg yw'r "safonol". Dyma sut mae iaith yn cael ei gwanhau, nid mewn un ergyd, ond mewn mil o gamau bach.

Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan o'n DNA diwylliannol. Maent yn adrodd hanes y tir, y bobl, y chwedlau, y gwaith, y bywyd. Nid oes gan neb hawl i'w dileu na'u disodli.

Felly, dwi eisiau rhoi cynnig i'r cyngor hwn heddiw ein bod ni yn :

1. Ysgrifennu at yr Arolwg Ordnans i alw arnynt i roi diwedd ar y polisi niweidiol presennol, ac i fabwysiadu egwyddor glir a syml a defnyddio enwau lleoedd tirweddol Cymraeg yn unig ar fapiau yng Nghymru.
2. Galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd yn ffurfiol ac i sicrhau bod yr Arolwg Ordnans yn parchu ac yn diogelu enwau Cymraeg hanesyddol.
3. Galw ar weddill Awdurdodau Cymru i ddilyn y cynnig hwn.

Nid yw hyn yn fater o fapiau yn unig. Mae'n fater o hunaniaeth, parch a chyfiawnder diwylliannol.

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 45 |
| Yn Erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYFARFOD O'R CYNGOR**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod: CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLAWN** | 14 Mai 2026 |

**PWNC**

**Eitem 15(b): RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD NIA JEFFREYS**

**PENDERFYNWYD:**

Mae'r Cyngor yn nodi llofruddiaeth yr Aelod Seneddol, Jo Cox ar 16/06/2016, ddeng mlynedd yn ôl eleni. (Bu i'r AS David Amess hefyd gael ei lofruddio ar 15/10/2021).

Mewn byd sy'n gynyddol dreisgar ac ymosodol, trist yw'r ffaith bod aelodau etholedig, o bob plaid ac ar bob lefel o lywodraeth, yn gynyddol agored i sarhad a chamdriniaeth. Dengys ymchwil diweddar fod 72% o Gynghorwyr wedi dioddef rhyw fath o fygythiad - boed yn eiriol neu'n waeth - yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r Cyngor hwn yn credu nad oes lle i ymddygiad bygythiol na threisgar mewn gwleidyddiaeth. Mae Cynghorwyr Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i fodelu'r safonau uchaf o barch a chwrteisi wrth ymwneud â'n gilydd ac â'r cyhoedd, ac rydym yn dymuno i'r un parch gael ei ddangos tuag atom.

Galwn ar aelodau'r Cyngor hwn ac aelodau Cynghorau Cymuned a Thref drwy Wynedd i gefnogi ymgyrch Un Llais Cymru, NALC a SLCC "Adduned Parch a Chwrteisi".

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 35 |
| Yn Erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.